# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 21ain o Fehefin 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Richard Evans

**CYFARFOD BLYNYDDOL**

1. Ymddiheuriadau: Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021/2022:

Cafwyd gair o ddiolch gan y Cynghorydd Richard Evans wrth iddo gamu o'r gadair ar ôl pum mlynedd yn y swydd. Diolchodd y cynghorwyr am eu cefnogaeth dros y cyfnod, y Clerc a'r Cynghorydd Sir. Mynegwyd ei obeithion i'r dyfodol a i'r cyngor fedru ddenu cynghorwyr newydd.

**PENDERFYNIAD:** Etholwyd y Cynghorydd Bethan Lawton yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021/2022.

4. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** I'w dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

5. Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021/2022:

**PENDERFYNIAD:** Etholwyd y Cynghorydd Alan H. Jones yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2021/2022.

6. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-Gadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

7. Enwebu a phenodi Cynghorwyr y gyrff allanol:

**PENDERFYNIAD:** I enwebu'r canlynol:
Ysbyty Tywyn a'r Cylch - y Cynghorydd Bethan Lawton
Un Llais Cymru - y Cynghorydd Arwel Pierce
Ysgol Gynradd Craig y Deryn - y Cynghorydd Bethan Lawton

8. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu'r rheolau sefydlog.

9. Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol.

10. Mabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

11. Derbyn Cofrestr Buddiannau Aelodau:

Adroddodd y Clerc bod y gofrestr buddiannau ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Adolygu'r Gofrestr Asesiad Risg y Cyngor:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y gofrestr asesiad risg gyda ychwanegiad, sef bod y cyngor wedi cynnal asesiad risg Covid19 drwy gynnal cyfarfodydd yn rhithiol dros Zoom, gan newydd ddechrau cyfarfod wyneb-yn-wyneb a chadw at y gofynion dwy fedr.

13. Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2021/2022:

**PENDERFYNIAD:** I benodi Cyngor Gwynedd yn archwilydd mewnol y Cyngor.

**CYFARFOD ARFEROL**

14. Derbyn cofnodion 25 Mai 2021:

Cafwyd gwybodaeth gan y Cadeirydd am ymweliad safle swyddog hawliau tramwy Cyngor Gwynedd, sef nad oedd y goden onnen o bryder ar y funud, a ddylai perchennog y goeden ofyn am farn arbenigwr petai yn bryderus am gyflwr y goeden.

Adroddwyd nad oedd gan gwmni GL Jones yrrwr lori LGV er mwyn medru gosod y sleid yn y cae chwarae.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda chywiriadau canlynol: glanhawyd yr ardd fach, ni paentwyd, coeden onnen oedd dan sylw, nid coden derw, a gwasanaeth yn ôl yn Ysbyty Bronglais o Ysbyty Glangwili, gyda'r cywiriadau yn Eitem 15 – Adroddiad y Cynghorydd Sir.
I dderbyn y wybodaeth parthed y goeden.
I dderbyn y wybodaeth parthed prinder gyrwyr LGV. I ychwanegu'r sleid i rhestr o eiddo'r Cyngor sydd yn cael ei yswirio, gan gynnwys yr hysbysfwrdd, y meinciau a'r pympiau codi dŵr hanesyddol.

15. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101745 | £188.52 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101746 | £47.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

16. Cais am gyfetholiad

**PENDERFYNIAD:** Yn unfrydol, i gyfethol Geraint Evans.

17. Elan City - Arwydd mesur cyflymder modurwyr:

Adroddwyd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn parthed costau cynnal a chadw'r arwyddion.

**PENDERFYNIAD:** I ofyn wrth Elan City am bris cytundeb cynnal a chadw, gan egluro bod y Cyngor yn awyddus i brynu peiriant sydd yn cael ei bweru gyda batri neu o'r grid, ac nad oedd diddordeb mewn peiriant solar.

18. Heddlu Gogledd Cymru - Diogelwch ffyrdd:

Adroddwyd bod oddeutu deuddeg aelod o'r cyhoedd wedi datgan diddordeb i fynychu cyfarfod cyhoeddus er mwyn trafod sefydlu cynllun gwylio cyflymder.

**PENDERFYNIAD:** I gynnal cyfarfod cyhoeddus, gan ofyn i swyddog o'r Heddlu fynychu'r cyfarfod er mwyn egluro'r cynllun. Yn sgil y pandemig Covid19, byddai angen i unigolion gofrestru eu bwriad i fynychu'r cyfarfod o flaen llaw. I beidio cyflogi cyfieithydd er mwyn cynnal y cyfarfod yn ddwyieithog.

19. Cyngor Gwynedd - Rheoleiddio - Goryrru drwy pentref Bryncrug:

Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwyned mewn ymateb i lythyr gan y cyngor ynn gofyn am ystyriaeth i brynu arwydd mesur cyflymder ar y cyd. Yr oedd Cyngor Gwynedd am adolygu'r cyflymder drwy osod teclynnau dros dro cyn penderfynu ar yr angen am arwydd parhaol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

20. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith Mehefin 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

21. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Cae Chwarae Maes Hyfryd:

Adroddwyd y byddai swyddog yn ymweld er mwyn asesu'r angen am arwydd dim chwarae gemau peli yn y cael chwarae.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

22. Trosglwyddo'r cae chwarae i Elusen Dolgoch - Diweddariad:

Derbyniwyd ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd yn egluro bod gweithredoedd y cae chwarae wedi ei hanfon at Guthrie Jones & Jones.

Adroddodd Cynghorydd bod y gweithredoedd a'r papurau yn y sied ac ym mocs rhif 2. Cafwyd hefyd wybodaeth bod y cae wedi ei gofrestru fel cae George V.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I anfon lythyr at Guthrie Jones & Jones yn gofyn am y gweithredoedd a'r papurau cyn-cofrestru.

23. Cais gan aelod o'r cyhoedd am beiriant diffibrileiddio:

**PENDERFYNIAD:** Mewn egwyddor bod y cyngor yn gefnogol o'r syniad o osod peiriant ar wal y Pafiliwn.
I ofyn wrth Cyngor Gwynedd am ddyfynbris i osod cyflenwad trydan yn y Pafiliwn sydd ddim yn cael ei fesur, er mwyn gosod y peiriant ar wal allanol toiled y dynion neu toiled yr anabl.

24. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - 40 Y Groesffordd, Bryncrug, LL36 9RP NP5/55/320):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

25. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Capel Bethlehem, Bryncrug, LL36 9PW (NP5/55/L140E):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

26. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Gweminarau: Adolygu Mesurau Rheoli Ymwelwyr:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

27. Chwarae Cymru - Gwahoddiad i seminar chwarae cymunedol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

28. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-yr eisteddle wedi ei lanhau
-yr oedd y nytiau a brynwyd yn ddiweddar ddim yn rhai ddur gwrthstaen gan eu bod eisoes wedi rhydu
-yr oedd angen ffyn codi ysbwriel
-bod y darllenydd trydan yn dangos balan £-233

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I anfon llythyr at y Clwb Pêl-droed yn eu hysbysu bod y balans yn -£233, gan ofyn iddynt edrych ar y sefyllfa gan mai y clwb sydd yn gyfrifol am y trydan o dan y telerau, gan hefyd ofyn iddynt am eu bwriad i dalu'r ddyled.
I ofyn wrth contractwr y cyngor am greu suddfan dŵr wrth prif fynedfa y cae.

29. Cae Chwarae - Cais gan unigolyn sydd yn ceisio ffurfio tîm pêl-droed o'r newydd i gael cyd-rannu'r cae pêl-droed gyda chlwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug :

**PENDERFYNIAD:** I ymateb gan awgrymu bod y tîm newydd yn ceisio cydweithio gyda chlwb pêl-droed Tywyn a Bryncrug, gan egluro mai'r clwb pêl-droed sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r cae, y pyst, rhwydi, y llochesi ayyb ... gan hefyd ddweud nad oes mod i'r cyngor roi caniatâd i dîm arall ddefnyddio eiddo y clwb pêl-droed.

30. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-yr oedd cwynion wedi ei dderbyn am nad oedd y Cyngor Sir wedi torri gwair wrth ymyl y ffyrdd bychain

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Cynghorydd Sir a'r Clerc i anfon llythyr at Gyngor Gwynedd parthed pryderon trigolion lleol am dorri gwair.

31. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Tref Nefyn yn gofyn am gynrychiolydd i fynychu cyfarfod i drafod yr argyfwng tai.

Adroddwyd bod coeden ger Bronwylfa wedi marw, sydd wrth ymyl un o'r pympiau dŵr hanesyddol. Cafwyd hefyd adroddiad m bryder ynghylch gwartheg ar fferm ger Ynys-y-Maengwyn a'r angen i hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth parthed llythyr Cyngor Tref Nefyn, gan gefnogi'r galw mewn egwyddor ond nad oedd y Cyngor am enwebu cynrychiolydd oherwydd pellter.
I anfon lythyr at Gyngor Gwyned parthed y goeden ger Bronwylfa, gan ofyn iddynt gynnal arolwg o'r sefyllfa, yn enwedig oherwydd bod y goeden wrth ymyl y ffordd a cheblau trydan yn agos iawn.
Cynghorydd i anfon rhagor o fanylion parthed y gwartheg at y clerc, er mwyn i'r clerc ohebu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:35pm

Llofnod y Cadeirydd ...........................................................